# Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar 21ain Mai 2026 yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Nigel Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Denfer Morgan (Clerc).

**342 Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Nigel Davies yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn bwrdeistrefol, 2026-27.

**343 Datganiad o Dderbyn Swydd y Cadeirydd**

Arwyddodd y Cadeirydd newydd etholedig y Datganiad o Dderbyn Swydd Cadeirydd.

**344 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies a Gary Evans am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**345 Ethol Is-gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Eirlys James-Evans yn Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer ei ail flwyddyn bwrdeistrefol, 2026-27.

**346 Datganiad o Dderbyn Swydd yr Is-Gadeirydd**

Arwyddodd yr Is-gadeirydd newydd etholedig y Datganiad o Dderbyn Swydd Cadeirydd.

**347 Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol 8fed Mai 2025**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8fed Mai 2025 fel rhai cywir.

**348 Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2025/2026**

Cytunwyd gofyn i Mr Gwyn Jones fod yn Archwilydd Mewnol ar gyfer archwilio Cyfrifon Blynyddol 2025-26.
.

**349 Cynllun Taliadau Aelodau ar gyfer 2026-27**

Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru dyddiedig Chwefror 2026 a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun canlynol ar gyfer 2026-27:

*Lwfansau a gynhwysir yn y Cynllun*
Costau Gofal
Taliad Costau Ychwanegol / Taliad Penodol am Nwyddau Traul
Costau Teithio a Chynhaliaeth
Arhosiad Dros Nos

*Lwfansau na chynhwysir yn y Cynllun*
Uwch Rôl
Maer neu Gadeirydd
Dirprwy Faer neu Is-gadeirydd
Colled Ariannol
Lwfans presenoldeb

Daeth y Cyfarfod i ben am 7:45 y.h.